CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 2

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P-VG-2712-19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Gorffennaf 2019

Annwyl Lynne,

Ar ôl i mi fynychu cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 20 Mehefin, gweler isod fy ymateb i'r pwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt. At ddibenion eglurder, rwyf wedi cynnwys pwyntiau gweithredu unigol yn y llythyr.

1. **Crynodeb o adolygiad Uned Gyflawni'r GIG o ofal sylfaenol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gan gynnwys adroddiadau unigol ar gyfer pob bwrdd iechyd, a'r adroddiad y bydd cynlluniau gwella dros dro yn seiliedig arno.**

Mae Uned Gyflawni'r GIG wedi cwblhau'r holl waith maes a'r gwaith dadansoddi data. Mae byrddau iechyd naill ai wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig llawn neu adborth llafar, gyda chrynodeb o ganfyddiadau, cyn derbyn adroddiad llawn. Rydym yn disgwyl derbyn trosolwg cenedlaethol yr Uned Gyflawni dros yr haf, a byddwn yn rhannu hyn â'r Pwyllgor, ynghyd â chrynodeb o'r cynigion gwella gwasanaethau ar gyfer gofal sylfaenol CAMHS, ar ôl iddynt gael eu cytuno â byrddau iechyd dros yr wythnosau nesaf.

O safbwynt adroddiadau unigol y Byrddau Iechyd Lleol, rwy'n gofyn i bob bwrdd iechyd baratoi adroddiad ar gyfer eu Bwrdd, neu is-bwyllgor priodol, sy'n nodi canfyddiadau'r Uned Gyflawni ar gyfer yr ardal, ynghyd ag ymateb arfaethedig y bwrdd. Byddaf yn disgwyl i'r adroddiadau hyn fod ar ffurf papurau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor.

O safbwynt yr adroddiad sydd wedi llywio'r meini prawf ar gyfer cynlluniau gwella'r byrddau iechyd: roedd y meini prawf yn seiliedig ar gyfarfodydd gyda'r Uned Gyflawni i drafod themâu sy'n dod i'r fei yn sgil y broses adolygu. Cafodd y meini prawf eu cytuno gyda'r Uned Gyflawni er mwyn llywio'r llythyr cyllido, cyn cwblhau adroddiad y trosolwg cenedlaethol. Er hwylustod, rwyf wedi nodi'r meini prawf cyllido a gafodd eu cynnwys yn y llythyr gwella gwasanaethau isod:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd angen i'r cynigion gyflwyno argymhellion Uned Gyflawni'r GIG yn dilyn yr adolygiad sicrwydd o ofal sylfaenol CAMHS yn eich bwrdd iechyd a cheisio cyrraedd targedau amseroedd aros ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd CAMHS ar sylfaen gynaliadwy. Rydym yn disgwyl i'r cynigion gynnwys camau gweithredu/gweithgarwch i:

- *gryfhau cydymffurfiaeth â phob un o bum swyddogaeth Rhan 1 o'r Mesur*
- *sicrhau bod systemau ar waith i gefnogi llwybr a llif dirwystr trwy ofal sylfaenol CAMHS ac ymlaen i SCAMHS os oes angen*
- *sicrhau bod staff cymorth ym maes gofal sylfaenol CAMHS yn gallu gweithio'n fwy effeithiol trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu symudol yn well*
- *canolbwyntio ar ymyrryd yn gynt, gan gynnwys sut y bydd gwasanaethau'n cysylltu ag agwedd ysgol gyfan tuag at lesiant emosiynol, o dan arweiniad cyd grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog.*
- *Gwella mynediad at wasanaethau argyfwng, y tu allan i oriau a seicolegol.*

Derbyniwyd cynigion gan bob un o'r byrddau iechyd ar 30 Mehefin, ac maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd cyn gwneud penderfyniad ar gyllid.

2. **Data rheoli ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiad.**

Cytunais i rannu'r data rheoli diweddaraf ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiad (wedi'i atodi yn **Atodiad A)**. Trafodwyd y cyfyngiadau a'r pryderon yn ymwneud ag ansawdd y data, ac fe gytunais i'w rannu gyda'r Pwyllgor ar yr amod nad oes unrhyw gasgliadau'n cael eu llunio ar sail y data, ac nad oes unrhyw gymariaethau'n cael eu gwneud rhwng byrddau iechyd ar sail y data. Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddatrys ansawdd a chysondeb y data cyn ei gyhoeddi.

Mae'r data yn adlewyrchu'r her o ddarogan galw am wasanaeth newydd ac arbenigol, ac mae'r galw am wasanaethau niwroddatblygiad yn uwch o lawer na'r disgwyl. Mewn ymateb i'r heriau hyn, rydym yn ystyried dewisiadau ar gyfer adolygiad a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar rwystrau i fynediad a materion capasiti mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol/awtistiaeth. Hefyd, rydym wedi gwahodd cynigion gan fyrddau iechyd ar gyfer cyllid afreolaidd eleni, er mwyn cefnogi gweithgareddau arian sefydlu, gan gynnwys cefnogi mentrau yn ymwneud â rhestri aros ym maes niwroddatblygiad.

3. **Diweddariad i'r gwaith ehangach, gan gynnwys rôl asiantaethau eraill, ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion hynod gymhleth sy'n cael eu lleoli mewn ysbytai yn Lloegr.**

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru eisoes yn ymgymryd â gwaith i ystyried sut y gellid defnyddio gofod mewn unedau cleifion preswyl y GIG yn well er mwyn diwallu anghenion ystod ehangach o bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Yn ogystal, mae rhai byrddau partneriaeth rhanbarthol eisoes yn ystyried sut mae'r system yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn gyda chymorth y Gronfa Gofal Integredig. Fodd bynnag, cynhaliwyd cyfarfod gyda rhanddeiliaid allweddol yn ddiweddar i nodi sut y gellir cefnogi'r gwaith hwn yn well ar lefel Cymru gyfan er mwyn darparu trefniadau cynllunio a chomisiynu cynaliadwy ac integredig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel ranbarthol a Chymru gyfan. Bydd mwy o fanylion am sut i ddatblygu'r gwaith hwn ar gael erbyn diwedd mis Awst.

4. **Nodyn ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal (Argymhelliad 23 o Cadernid Meddwl).**

Nododd ein diweddariad ysgrifenedig ein bod wedi buddsoddi £15 miliwn yn y Gronfa Gofal Integredig er mwyn cefnogi gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio ar draws byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector er mwyn datblygu cynigion sy'n diwallu anghenion eu plant sy'n derbyn gofal. Rwy'n deall bod Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc wedi cynnwys diweddariad ar y gwaith hwn hefyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig.

O safbwynt gweithgaredd diweddar, roedd y digwyddiad Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Uwch ym mis Mehefin yn cynnwys gweithdai yn trafod iechyd meddwl a llesiant plant sy'n derbyn gofal. Y gweithdy hwn oedd y trydydd mewn cyfres o weithdai a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer arferion gorau a datblygu gwasanaethau er mwyn hwyluso cymorth ac ymyriadau a dargedir ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddatblygu problemau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl neu'r rhai sy'n dangos arwyddion cynnar o anhwylder iechyd meddwl. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau ar gyfer Plant a'r rhaglen Agwedd Ysgol Gyfan. Bwriedir datblygu a phrofi'r fframweithiau penodol cyn diwedd y Rhaglen ym mis Hydref 2019.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwybodaeth Reoli:

Canran y plant/pobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos i gychwyn asesiad niwroddatblygiad ADHD neu ASD - Targed 80%

Dyddiad	Targed	Cymru gyfan	Aneurin Bevan	Betsi Cadwaladr	Caerdydd a'r Fro	Cwm Taf Morgannwg	Hywel Dda	Powys	Bae Abertawe
Ebr-18	80%	58.1%	86.9%	38.6%	84.7%	91.5%	35.5%	100.0%	93.5%
Mai-18	80%	59.7%	83.0%	40.1%	88.4%	79.9%	35.5%	100.0%	94.6%
Meh-18	80%	62.4%	81.1%	44.2%	93.6%	78.2%	40.1%	100.0%	91.3%
Gorff-18	80%	63.2%	81.0%	45.3%	96.6%	76.2%	41.2%	100.0%	91.1%
Awst-18	80%	60.0%	72.4%	44.0%	98.5%	64.5%	42.5%	90.8%	86.5%
Medi-18	80%	58.1%	67.4%	44.6%	96.5%	58.8%	43.5%	82.7%	80.6%
Hyd-18	80%	56.7%	67.2%	41.8%	97.1%	62.8%	42.5%	74.3%	76.5%
Tach-18	80%	52.5%	80.6%	30.0%	94.7%	63.9%	43.2%	82.4%	67.6%
Rhag-18	80%	50.8%	86.6%	27.9%	92.1%	61.7%	42.6%	87.6%	61.5%
Ion-19	80%	49.8%	84.8%	37.2%	88.8%	56.9%	42.0%	79.0%	47.1%
Chwe-19	80%	51.1%	84.9%	37.6%	93.3%	59.7%	40.8%	89.1%	49.5%
Maw-19	80%	51.1%	82.9%	37.2%	87.5%	76.7%	35.8%	95.0%	46.7%
Ebr-19	80%	44.6%	74.0%	35.5%	75.8%	68.3%	26.3%	91.8%	37.9%